Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

28 Tachwedd 2019

Annwyl Mick,

Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

Ar ôl i mi ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 21 Hydref teimlaf y byddai'n fuddiol i Aelodau'r Pwyllgor petawn yn sicrhau mwy o eglurder ynghylch rhai o'r materion a godwyd mewn perthynas â'r pwerau i wneud rheoliadau a gynhwysir ym Mil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru).

Mae'r pwerau i wneud rheoliadau o fewn adrannau 3 a 4 o'r Bil ac maent yn ei gwneud hi'n bosibl i bennu beth y dylid a beth na ddylid ei ystyried yn anifail gwyllt, a beth y dylid a beth na ddylid ei ystyried yn syrcas deithiol.

Er bod y diffiniad o anifail gwyllt yn gymharol debyg o fewn Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban) 2018, Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau 2019 a Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 mae rhai amrywiadau o safbwynt y drafftio. Nid wyf, fodd bynnag, yn rhagweld y gallai'r amrywiadau hyn arwain at wahaniaeth o safbwynt yr effaith gyffredin ar draws y gwahanol weinyddiaethau. Er enghraifft, mae Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 yn diffinio anifail gwyllt fel anifail nad yw fel rheol yn byw ym Mhrydain Fawr, tra bo Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) a Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (yr Alban) 2018 yn diffinio anifail gwyllt fel anifail nad yw fel rheol yn byw ar Ynysoedd Prydain. Er bod Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) a Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (yr Alban) 2018 yn cynnwys pwerau i wneud rheoliadau nid yw Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau 2019 yn cynnwys pwerau o'r fath. Mater i Lywodraeth y DU yw'r penderfyniad ynghylch hepgor y rhain, ond credaf eu bod yn angenrheidiol er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd yn y dyfodol (os bydd yn codi yn y dyfodol) o safbwynt beth y dylid ei ystyried a beth na ddylid ei ystyried yn anifail gwyllt neu'n syrcas deithiol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Caiff unrhyw ohebiaeth a gawn drwy gyfrwng y Gymraeg ei hateb yn yr un iaith ac ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at oedi wrth inni ymateb.

Cafwyd rhywfaint o drafod yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ynghylch a yw'r pwerau hyn ar gyfer gwneud Rheoliadau yn bwerau Harri'r Wythfed. Hoffwn nodi'n glir nad yw'r rhain, yn dechnegol, yn bwerau Harri'r Wythfed gan nad ydynt yn darparu ar gyfer diwygiadau technegol o ddeddfwriaeth sylfaenol. Eto i gyd, maent yn ei gwneud hi'n bosibl i ddarpariaeth atodol gael ei gwneud a fydd yn effeithio ar brif ddiben y Bil (hy y drosedd). O fewn y cyd-destun hwnnw mae'n gwbl briodol eu bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol fel y darperir ar ei chyfer yn y Bil.

Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth uchod yn helpu'r Pwyllgor i baratoi ei Adroddiad cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Flwyddyn Newydd.

Cofion,

Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs